Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Cadernid Covid-19
## ar gyfer y Sector ôl-16

Fframwaith strategol ar gyfer darpariaeth dysgu o fis Medi 2020

31 Gorffennaf 2020

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

Undeb Ewropeaidd
European Union

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# Cynnwys


Cyflwyniad ... 3

Y profiad dysgu o fis Medi 2020 ... 4

Egwyddorion galluogi ... 6

1. Gweithredu diogel ... 7
2. Lles ac iechyd meddwl ... 9
3. Cwricwlwm ac asesu ... 11
4. Cyfranogiad dysgwyr a staff ... 13
5. Cydraddoldeb ... 14
6. Dysgu Proffesiynol ... 15
7. Dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ... 16
8. Adferiad economaidd ... 17
9. Cadernid ariannol ... 19

# Cyflwyniad

Ar 20 Mai fe wnaethom ni gyhoeddi ein Cynllun Cadernid Covid-19 cynhwysfawr ar gyfer y sector ôl-16 (gan gynnwys addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion), gan nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i rhanddeiliaid i fodloni anghenion newidiol dysgwyr, cymunedau a chyflogwyr yng Nghymru yn ystod a thu hwnt i'r pandemig Covid-19. Mae'n amlinellu tri cham gwaith:




Ar 10 Mehefin fe wnaethom ni gyhoeddi canllawiau ar ailafael mewn dysgu wyneb yn wyneb mewn lleoliadau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yn ystod haf 2020. Roedd y canllawiau'n rhan o'r cam "Achub", gan ganolbwyntio ar ddysgwyr yr oedd angen iddynt gwblhau asesiadau galwedigaethol, a'r rhai yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt i barhau mewn addysg.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf rydym wedi gweithio'n agos gyda darparwyr dysgu a phartneriaid i ddatblygu cynllun ar gyfer dysgu ôl-16 o fis Medi 2020. Dros y cyfnod hwn, mae cyfyngiadau Covid-19 yn raddol wedi eu llacio'n raddol wrth i'r gyfradd heintio ddisgyn, ac mae sectorau o'r economi wedi ailagor ar gyfer busnes. Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd yn parhau ynghylch sut y bydd y sefyllfa'n datblygu, y posibilrwydd o gynnydd sydyn mewn heintiau ac ailgyflwyno cyfyngiadau wedi hynny.

Mae darparwyr wedi dweud wrthym yn gyson:

- bod rhaid i ddiogelwch a lles dysgwyr a staff barhau i fod y brif flaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau;
- bod angen amser arnynt i gynllunio eu cwricwlwm, eu staff, yr amgylchedd dysgu a'u cyfathrebu yn barod at yr hydref;
- ei bod hi'n llawer haws symud o gynllun model "dysgu cyfunol" i gyflwyno wyneb yn wyneb, yn hytrach na'r ffordd arall; ac
- er gwaethaf heriau cyflwyno dysgu o bell yn ystod y cyfyngiadau symud, mae llawer o ganlyniadau a chyfleoedd cadarnhaol, a dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag ymarferwyr, arweinwyr, dysgwyr a chynrychiolwyr dysgwyr i sicrhau bod y rhain yn cael eu hadeiladu i fod yn rhan o ddarpariaeth y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon, sydd wedi ei chyd-lunio gyda'r sector, yn gosod fframwaith a gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y profiad dysgu ôl-16 o fis Medi 2020. Ei nod yw adeiladu ar brofiadau'r misoedd diwethaf drwy gymeradwyo model darparu "dysgu cyfunol", lle bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn parhau i wneud o leiaf rhywfaint o'u dysgu o bell yn ogystal â mynychu eu coleg neu ganolfan ddysgu. Dydyn ni ddim yn rhagnodi cydbwysedd y gweithgareddau dysgu o bell ac wyneb yn wyneb, gan gydnabod y bydd hyn yn wahanol ar gyfer dysgwyr, cyrsiau a lleoliadau unigol. Bydd gan ddarparwyr yr hyblygrwydd i gynllunio a darparu dysgu mewn ffyrdd sy'n bodloni anghenion lleol ac yn cydymffurfio â chyngor iechyd cyhoeddus.

# Y profiad dysgu o fis Medi 2020

Rydym yn disgwyl i ddarparwyr ôl-16 gynnig profiad dysgu o ansawdd uchel i bob dysgwr o fis Medi 2020 ymlaen. Rhagwelwn y bydd hyn yn cynnwys dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr, gan ddefnyddio dysgu cyfunol er mwyn gwella'r profiad dysgu a helpu gyda gweithredu diogel. Mewn rhai achosion, cytunir ar symleiddio ac ailffocysu'r cwricwlwm er mwyn helpu i sicrhau darpariaeth ddiogel, fel yr amlinellir yn adran 3 isod.

Dylai darparwyr dysgu benderfynu ar y cymysgedd o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell, yn seiliedig ar eu hadnabyddiaeth o anghenion a gallu dysgwyr; eu gallu i gael mynediad at ddysgu a chefnogaeth ddigidol; ac ymarferoldeb darparu gwahanol gyrsiau a chymwysterau. Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod ganddynt weledigaeth glir o sut beth yw profiad o ddysgu cyfunol o ansawdd uchel, ac mae'r ddogfen hon yn darparu fframwaith cyffredinol o egwyddorion fydd yn gymorth i chi.

### Gofynion ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr

Mae'n debygol y bydd angen mwy o amser yn eu coleg neu ganolfan ar rai dysgwyr nag eraill, a dylai darparwyr ddefnyddio'r asesiad cychwynnol, eu gwybodaeth am anghenion dysgwyr sy'n dychwelyd, a nodi ffactorau risg wrth benderfynu ar hyn. I rai dysgwyr, efallai na fydd dysgu o bell yn briodol neu efallai y bydd angen ei leihau i'r eithaf; bydd llawer o ddysgwyr ôl-16 yn gallu astudio'n annibynnol am ran o'r amser ond bydd angen cymorth, cyfarwyddyd ac adborth arnynt o hyd er mwyn sicrhau bod eu hamser yn cael ei ddefnyddio'n gynhyrchiol. Mae'n bosibl na fydd eraill yn gallu dysgu o bell o gwbl oherwydd ffactorau sy'n ymwneud â'u sgiliau, eu hoffer, eu hamgylchedd cartref, eu hanawsterau dysgu, eu cymhelliant neu'r math o raglen y maen nhw'n ei hastudio. Gall y ffactorau hyn, ac felly anghenion unigol y dysgwyr, newid dros amser.

Dylai darparwyr dysgu:

(i) Sicrhau bod dysgwyr sy'n astudio rhaglenni **Sgiliau Byw'n Annibynnol** mewn AB yn dychwelyd i raglen y cytunwyd arni o ddysgu wyneb yn wyneb o fis Medi, lle bo modd gwneud hynny'n ddiogel, er mwyn adlewyrchu'r heriau sy'n ymwneud â darpariaeth o bell ar gyfer y garfan hon a'u rhieni/gofalwyr;

(ii) Cynllunio ar gyfer dysgwyr ar **raglenni Lefel Mynediad, Hyfforddeiaethau a dysgwyr sy'n agored i niwed** i gael cyfran ddigon uchel o ddysgu wyneb yn wyneb, fel y gallant elwa ar y cymorth, y rhyngweithio cymdeithasol a'r cymhelliant fydd yn eu helpu i barhau i ddysgu, gyda chynnwys ar-lein i wella a chyfoethogi eu profiadau;

(iii) Sicrhau bod **dysgwyr yn y gweithle**, megis prentisiaid, yn cael yr un lefel o ddiogelwch â dysgwyr "mewn canolfannau", ond yn cydnabod mai'r cyflogwr sy'n gyfrifol yn y pen draw am iechyd, diogelwch a lles prentisiaid;

(iv) Pennu'r cydbwysedd priodol o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell ar gyfer pob dysgwr a rhaglen arall, er mwyn sicrhau arferion gwaith diogel a phrofiadau dysgu o ansawdd uchel.

### Dysgu cyfunol

Mae staff ar draws y sector ôl-16 wedi gweithio'n eithriadol o galed i symud y ddarpariaeth ddysgu ar-lein, i gefnogi lles dysgwyr ac i gynnal safonau diogelu. Rydym wedi arolygu'r sector i ddeall eu dulliau gweithredu a'r heriau sy'n wynebu staff a dysgwyr, ac wedi sefydlu gweithgor i nodi arfer effeithiol a'r cymorth pellach sydd ei angen ar y sector.

Mae'r newid ar unwaith at ddysgu ar-lein wedi nodi gwersi gwerthfawr a all hysbysu modelau addysgu a dysgu yn y dyfodol. Mae gwahaniaeth enfawr rhwng symud cynnwys ystafell ddosbarth ar-lein, a rhaglen o ddysgu cyfunol wedi'i chynllunio sy'n integreiddio gweithgareddau

wyneb yn wyneb ac o bell yn effeithiol. Mae gweithio yn y modd hwn yn gofyn am sgiliau penodol gan ddysgwyr a staff, ac am ailffocysu dysgu proffesiynol.

Mae'r sector ôl-16 yng Nghymru mewn sefyllfa dda iawn i gofleidio'r gwersi a'r cyfleoedd a ddaw drwy ddysgu cyfunol. Ym mis Mehefin 2019 fe gyhoeddwyd ein fframwaith strategol **Digidol 2030** ar gyfer dysgu ôl-16, a luniwyd ar y cyd gyda'r sector a JISC. Defnyddir hyn i bennu blaenoriaethau a chamau gweithredu cenedlaethol, yn ogystal â llunio strategaethau darparwyr unigol. Wrth gwrs, pan gyhoeddwyd y fframwaith, ychydig oedd yn rhagweld pa mor hanfodol fyddai dysgu digidol yn dod o fewn cyfnod mor fyr. Roedd y darparwyr hynny oedd eisoes wedi rhoi croeso brwd i gysyniad Digidol 2030 mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau'r pandemig, a byddant ar y blaen o ran sefydlu model dysgu cyfunol ar gyfer y tymor hwy. Serch hynny, sylweddolwn y bydd hi'n cymryd amser i sefydlu safonau uchel o ddysgu cyfunol ar draws y sector cyfan.

**Diffiniad o ddysgu cyfunol**

*Mae dysgu cyfunol yn darparu cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb a gweithgareddau a chynnwys digidol deinamig sy'n hwyluso dysgu unrhyw amser/unrhyw le.*

https://www.jisc.ac.uk/guides/creating-blended-learning-content

**Nodweddion dysgu cyfunol effeithiol**

- Caiff y dysgu ei gynllunio er mwyn ystyried y gwahanol ddulliau cyflwyno i greu rhaglenni cydlynol gyda nodau, amcanion a phwyntiau asesu clir.
- Mae dysgwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu sgiliau astudio ac ymchwilio annibynnol, llythrennedd gwybodaeth, cymhelliant a gwydnwch.
- Rhoddir cyfarwyddyd i ddysgwyr er mwyn iddynt wybod beth i'w wneud a sut i gael cymorth os bydd ei angen arnynt.
- Caiff cydrannau digidol ac wyneb yn wyneb eu cynllunio'n ofalus i fod yn integredig ac yn gyflenwol, ac mae pob un yn gwella ac yn cyfoethogi'r llall.
- Rhoddir blaenoriaeth i amser wyneb yn wyneb ar gyfer darparu gweithgareddau ymarferol na ellir eu cyflawni ar-lein, ar gyfer cydweithredu rhwng cymheiriaid, ac i ddarparu "sgaffaldau" ar gyfer dysgu o bell, gan gynnwys asesu ffurfiannol, adborth, ailgyfeirio ac arweiniad.
- Mae staff a dysgwyr yn deall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt, gan gynnwys sawl awr o ddysgu wyneb yn wyneb, dysgu o bell a dysgu annibynnol, ac unrhyw hyblygrwydd o ran presenoldeb a phryd y maen nhw'n dysgu.
- Caiff y dysgu ei wahaniaethu i fodloni anghenion unigol, gan gynnwys adnoddau dwyieithog, cymorth ychwanegol lle bo angen a gweithgareddau "ymestyn a herio".
- Caiff anghydraddoldebau digidol a'r rhwystrau i ddysgwyr sy'n agored i niwed eu hystyried wrth gynllunio a darparu dysgu.
- Caiff gweithgareddau eu cynllunio i helpu dysgwyr a staff i reoli "blinder sgrin", gan gynnwys sesiynau byr â ffocws, amser ar gyfer cymryd seibiau rheolaidd ac amserlennu hyblyg.
- Bydd dysgwyr yn deall pryd a sut i gyflwyno gwaith ac yn cael adborth prydlon ac adeiladol arno.
- Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd i gydweithio a chefnogi ei gilydd, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae ymgysylltu â dysgwyr yn cael ei fonitro ac mae dealltwriaeth glir o sut beth yw ymgysylltu da.

Rydyn ni wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân ar cynllunio a ddarparu dysgu cyfunol.

# Egwyddorion galluogi

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar ein gweledigaeth ar gyfer cyflwyno dysgu o fis Medi 2020, ac felly rydym wedi rhoi'r profiad addysgu a dysgu yn ganolog. Rydym wedi diffinio nifer o egwyddorion galluogi i gefnogi hyn, sy'n cynnwys disgwyliadau ynghylch cefnogaeth i ddysgwyr a staff, yn ogystal â threfniadau ymarferol i helpu i sicrhau cydnerthedd ein rhwydwaith o ddarparwyr.

Mae'r adran nesaf yn ymhelaethu ar yr egwyddorion hyn, sy'n cael eu crynhoi isod.




Bydd gwerthuso ac ymchwil yn parhau i fod yn ganolbwynt i gam Adnewyddu'r Cynllun Cadernid Ôl-16. Mae cynllun dadansoddi yn cael ei baratoi, sy'n nodi'r ymchwil a'r gwaith ystadegol sydd ei angen i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y data sydd ar gael ac i fonitro a gwerthuso effeithiau Covid-19 ar y sector. Byddwn yn asesu ac yn adolygu sut y caiff y cynllun ei gyflawni ac yn addasu ein dull o weithredu wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnwys llais y dysgwr a'r ymarferwr mewn ymchwil, ac yn archwilio sut y gallwn ddefnyddio cyd-gynhyrchu i sicrhau bod dysgwyr ac ymarferwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o werthuso sut mae'r dysgu'n cael ei ddarparu. Bydd gwaith thematig gan Estyn yn ein helpu i ddeall dulliau o ddysgu cyfunol a chefnogaeth ar gyfer lles.

## 1. **Gweithredu diogel:** Iechyd, diogelwch a lles dysgwyr a staff fydd y brif flaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau ar lefelau cenedlaethol a sefydliadol.

Fel rhan o'u cynllunio ar gyfer 2020/21, dylai darparwyr dysgu edrych eto ar yr asesiadau risg a wnaethant ar gyfer dychweliad dysgwyr â blaenoriaeth o fis Mehefin 2020 a'u diweddaru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau dychweliad diogel dysgwyr a staff, yn cynnwys y rhai sydd heb fynychu ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb ers cychwyn y cyfyngiadau symud.

Rhaid i ddarparwyr dysgu sicrhau bod yr holl staff a dysgwyr yn cael eu hysbysu am y system o reolau a nodir isod, a dylent barhau i ufuddhau iddynt.

*Atal:*

1. Lleihau'r cysylltiad rhwng unigolion lle bynnag y bo modd.
2. Lleihau'r cyswllt gydag unigolion sy'n sâl drwy sicrhau bod y rheini sydd â symptomau COVID-19, neu rhywun yn eu haelwyd neu aelwyd estynedig sydd â'r symptomau, ddim yn dod i'w coleg neu eu canolfan hyfforddi.
3. Glanhau dwylo'n drylwyr, yn amlach nag arfer.
4. Sicrhau hylendid resbiradol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa'.
5. Parhau i lanhau'n fwy trylwyr, gan gynnwys glanhau arwynebau a gyffyrddir yn aml, gan ddefnyddio cynhyrchion safonol fel glanedyddion a channydd.
6. Lle bo angen, gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol.

*Ymateb i unrhyw haint:*

7. Cydymffurfio â strategaeth Profi Olrhain Diogelu
8. Cyfyngu ar unrhyw achosion drwy ddilyn cyngor y tîm diogelu iechyd lleol.

Rydym wedi cyhoeddi ar wahân ar sut y mae'n rhaid i ddarparwyr dysgu sicrhau gweithredu diogel. Bydd yn parhau i gael ei ddiweddaru yn unol â'r cyngor gwyddonol diweddaraf.

**Paratoi ar gyfer cyfyngiadau yn y dyfodol**

Mae angen i ddarparwyr dysgu fod yn barod ar gyfer cyfyngiadau posibl yn y dyfodol i ddarpariaeth wyneb yn wyneb os bydd cyfraddau heintio Covid-19 yn cynyddu. Gallai hyn gynnwys cyfnodau o gyfyngiadau symud a/neu gyfyngiadau lleol fyddai'n arwain at gau colegau, canolfannau hyfforddi a chyflogwyr.

Er mwyn helpu i sicrhau bod modd i ddysgu barhau heb roi dysgwyr dan anfantais, dylai darparwyr sicrhau:

- Eu bod yn adolygu'n rheolaidd beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella mewn perthynas â dysgu o bell, a defnyddio hyn i hysbysu cynllunio ar gyfer cyfyngiadau yn y dyfodol;
- Bod dysgwyr a staff yn gwybod beth sy'n digwydd a beth sy'n ddisgwyliedig ganddynt;
- Bod cynlluniau dysgu unigol yn eu lle ac yn gyfredol ar gyfer pob dysgwr;
- Bod gan ddysgwyr yr offer TGCh a'r feddalwedd angenrheidiol i allu dysgu ar-lein, lle mae hynny'n bosibl;
- Bod gwasanaethau TGCh ar gael ac yn hygyrch i'r rhai sy'n addysgu ac yn dysgu ar-lein;

- Bod trefniadau yn eu lle i gefnogi dysgu o bell i'r rhai sy'n methu dysgu ar-lein;
- Bod manylion cyswllt yr holl ddysgwyr a staff yn gyfredol;
- Bod y darparwr yn gwybod pwy yw ei ddysgwyr bregus (yn cynnwys y rhai sydd mewn perygl o adael) a bod trefniadau yn eu lle ar gyfer tracio a monitro;
- Bod trefniadau yn eu lle ar gyfer cefnogaeth diogelu a lles, gyda dysgwyr a staff yn gwybod sut i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt;
- Bod deunyddiau ac adnoddau cwrs ar gael ar-lein drwy blatfformau hygyrch, gydag ystyriaeth briodol i anghenion dysgwyr cyfrwng Cymraeg;
- Bod trefniadau ar waith i gyflwyno gwaith, marcio a rhoi adborth;
- Bod pob platfform dysgu ar-lein yn gyfredol, yn ddiogel ac yn gadarn, a dylai'r cynlluniau adfer fod yn derfynol ac yn barod os bydd angen;
- Bod cynnwys platfformau dysgu yn cydymffurfio â safonau hygyrchedd, yn gynhwysol ac yn hygyrch ar amrywiaeth o ddyfeisiau a meintiau sgrin;
- Bod dysgwyr yn cael fframwaith o gefnogaeth i ddatblygu sgiliau astudio, dysgu annibynnol, cymhelliant a gwydnwch, i'w helpu i ymdopi â newidiadau;
- Bod strategaethau cyfathrebu wedi eu sefydlu ar gyfer dysgwyr, staff, rhieni/gofalwyr, a chyflogwyr.

## 2. **Lles ac iechyd meddwl:** Bydd darparwyr yn sicrhau bod anghenion iechyd meddwl dysgwyr a staff yn cael eu nodi a'u cefnogi, gyda chyfathrebu clir am y cymorth sydd ar gael.

Mae corff o ymchwil eisoes yn dechrau ymddangos, sy'n dangos sut mae'r pandemig wedi effeithio, ac yn dal i effeithio, ar les pobl ifanc ac oedolion.

Canfu arolwg a gynhaliwyd gan Young Minds ar ddechrau cyfnod y cyfyngiadau symud, fod y pandemig wedi dwysáu problemau megis gorbryder, anawsterau cysgu, pyliau panig a'r ysfa i hunan-niweidio ymysg pobl ifanc â hanes o anghenion iechyd meddwl. Achosodd cau lleoliadau addysg ansicrwydd yn y tymor byr, ac roedd ansicrwydd ynghylch deilliannau addysg a chyflogaeth yn y dyfodol. Roedd pobl ifanc yn pryderu am y cau am nifer o resymau, yn cynnwys:

- Tarfu ar yr arferion a'r gweithgareddau y byddent yn eu defnyddio fel technegau ymdopi
- Posibilrwydd o golli cysylltiad â ffrindiau
- Pryderon ynghylch sut y byddai eu graddau'n cael eu hasesu, neu am yr effaith ar eu rhagolygon prifysgol neu yrfa
- Llai o gysylltiad gyda chynghorwyr neu oedolion dibynadwy, yn cynnwys athrawon, gyda rhai o'r ymatebwyr yn bryderus am gynghori dros y ffôn oherwydd diffyg preifatrwydd gartref
- Pryderon am ddysgu gartref, am resymau ymarferol ac oherwydd straen cysylltiedig â'r pandemig
- Colli cefnogaeth fugeiliol ffurfiol neu anffurfiol
- Colli eu lle 'diogel' i ffwrdd o amgylcheddau cartref anodd neu beryglus

Bydd adolygiad llenyddiaeth o'r *Impact of Mass Disruption on children's mental health and wellbeing* yn cael ei gwblhau yn ystod yr haf, a bydd yn darparu rhagor o dystiolaeth ar effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc er mwyn hysbysu datblygu polisi.

Rydym wedi sefydlu gweithgor gyda rhanddeiliaid ôl-16 a fydd yn helpu i rannu arferion da ac yn datblygu strategaethau ac arweiniad i alluogi'r sector i gefnogi dysgwyr sydd wedi eu heffeithio gan y pandemig. Yn ystod 2020-21 rydym yn ariannu prosiectau wedi eu harwain gan addysg bellach ar iechyd meddwl, yn cynnwys rhai gweithgareddau penodol ar gymorth a phontio Covid-19; byddwn yn gweithio gyda rhwydweithiau ar draws y sector ôl-16 i ledaenu a dysgu gan y rhain.

Yn y cyfamser, rydym yn disgwyl i ddarparwyr dysgu wneud y canlynol:

- Defnyddio asesu cychwynnol i sicrhau bod ffactorau risg mewn perthynas â lles yn cael eu nodi;
- Sicrhau bod cymorth lles ar gael i ddysgwyr a staff, yn cynnwys atgyfeirio at wasanaethau cynghori lle bo angen, wyneb yn wyneb, ar-lein neu dros y ffôn;
- Lle mae hynny'n bosibl, cyfeirio dysgwyr sy'n siarad Cymraeg at gymorth cyfrwng Cymraeg;
- Sicrhau bod y cymorth sydd ar gael yn cael ei hyrwyddo i ddysgwyr a staff a'u bod yn ymwybodol o "arwyddion rhybudd cynnar" ac o beth i'w wneud os bydd angen cymorth arnynt;
- Bod yn ymwybodol y gall dysgu o bell ei gwneud hi'n anoddach i staff wybod pan fydd dysgwyr yn cael trafferth cadw i fyny, i reoli eu hamser ac i ymdopi â gorbryderon, a defnyddio "dal i fyny" rheolaidd i helpu gyda hyn;

- Ystyried y pryderon y gallai rhieni eu profi wrth gefnogi eu plant yn ystod dysgu o bell, a chyfathrebu â nhw am y ffyrdd gorau o wneud hynny yn ogystal ag am newidiadau i sut mae dysgu'n digwydd;
- Helpu staff a dysgwyr i ddefnyddio technoleg i reoli eu hamser a'u pryderon yn effeithiol (er enghraifft, drwy reoli hysbysiadau i leihau ymyriadau, a chymryd toriadau rheolaidd oddi wrth y sgrin);
- Cydnabod y bydd staff yn wynebu pryderon a phwysau yn gysylltiedig â Covid-19, a sicrhau eu bod yn gallu cael y cymorth sydd ei hangen arnynt; a
- Dilyn canllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru ar Gadw Plant a Phobl Ifanc yn Ddiogel, sydd wedi'u cynllunio i gynorthwyo ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc hyd at 18 oed i gael gafael ar wybodaeth a chyngor ar adnabod camdriniaeth, cefnogi datgelu ac adrodd.

## 3. **Cwricwlwm ac asesu:** Bydd gofynion cwricwlwm ac asesu yn cael eu hadolygu a'u diweddaru lle mae hynny'n bosibl, er mwyn helpu i sicrhau ymateb hyblyg i anghenion dysgwyr a chyflogwyr

Rydym yn gweithio gyda'r sector a rhanddeiliaid i edrych ar symleiddio gofynion y cwricwlwm, lle mae hynny'n bosibl, er mwyn helpu i sicrhau bod darparwyr yn gallu cadw dysgwyr a staff yn ddiogel. Mae cyfyngiadau ar faint y gallwn ei wneud, oherwydd yr angen i sicrhau cydraddoldeb i'n dysgwyr gyda'r rhai sy'n dilyn cymwysterau cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU, a'r angen i fodloni lefelau cymhwysedd dysgwyr a phrentisiaid galwedigaethol. Mae'r sefyllfa bresennol i'w gweld yn y tabl isod.

| **Cwricwlwm** |
|---|
| **Rhaglenni galwedigaethol mewn Addysg Bellach**<br>Mae'r rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol y mae dysgwyr yng Nghymru yn eu dilyn hefyd ar gael yng ngwledydd eraill y DU, felly mae Cymwysterau Cymru yn gweithio'n agos gydag Ofqual a rheoleiddwyr eraill i sicrhau dull cyson o asesu. Mae Ofqual wedi cyhoeddi papur yn amlinellu'r egwyddorion allweddol y mae'n debygol y bydd gofyn i gyrff dyfarnu eu dilyn wrth ystyried sut y gallai fod angen addasu cymwysterau ac asesiadau yn 2020/21. Bydd unrhyw newidiadau a wneir yn ceisio sicrhau'r gallu i ymdopi i'r eithaf ag asesiadau a sicrhau nad yw dysgwyr o dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion sy'n dilyn cymwysterau cyffredinol, tra'n cynnal dilysrwydd cymwysterau galwedigaethol.<br>Rydym wedi gweithio gyda Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd Colegau Cymru i gytuno ar drefniadau ar gyfer symleiddio rhaglenni galwedigaethol ar gyfer 2020/21, gan alluogi colegau i ganolbwyntio ar gyflwyno'r prif gymwysterau. Bydd hyn yn caniatáu i golegau fod yn hyblyg a chanolbwyntio ar y dysgwr wrth ymateb i addasiadau'r corff dyfarnu, gan hwyluso pontio di-dor pe bai cyfyngiadau pellach yn cael eu gosod, drwy ganiatáu dysgu cyfunol o'r dechrau'n deg. |
| **Safon Uwch**<br>Mae Ofqual wedi ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i asesu rhai pynciau Safon Uwch a TGAU yn 2020/21, er mwyn lleihau'r pwysau ar amser athrawon a darparu ar gyfer cyfyngiadau iechyd y cyhoedd parhaus posibl. Efallai hefyd y bydd newidiadau pellach i amserlen yr arholiadau yn 2021, er mwyn ymestyn yr amser addysgu a dysgu.<br>Gan y bydd dysgwyr Safon Uwch yn cystadlu â'u cyfoedion o Loegr ac o fannau eraill am leoedd mewn prifysgolion ac am swyddi, nid oes fawr o le i gynllun cyrsiau Safon Uwch yng Nghymru i wyro oddi wrth y safon yn Lloegr. Felly, dydyn ni ddim yn rhagweld newidiadau sylweddol ar hyn o bryd. Yn ddiweddar, mae CBAC wedi cynnal arolwg gydag athrawon ar yr addasiadau a allai fod yn ofynnol er mwyn cyflwyno cymwysterau Safon Uwch yn llwyddiannus o'r flwyddyn academaidd 2020/21. Bydd canllawiau pellach ar asesu, addasiadau a'r amserlen arholiadau ar gyfer Safon Uwch a ddarperir ar draws AB ac ysgolion yn y dyfodol yn cael eu cyhoeddi maes o law.<br>Rydym wedi sefydlu gweithgor gyda chynrychiolaeth o'r sector AB ac ysgolion chweched dosbarth ynghyd ag Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, Consortia Rhanbarthol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i ddatblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer darparu Safon Uwch ar draws sectorau yn 2020/21. Mae'r grŵp hwn yn paratoi canllawiau atodol cychwynnol ar gyfer athrawon, dysgwyr a rhieni i'w cyhoeddi ym mis Awst. Bydd hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau i asesu Safon Uwch yn ystod y flwyddyn academaidd. |
| **Prentisiaethau**<br>Gan fod fframweithiau prentisiaeth wedi'u gosod mewn deddfwriaeth, bydd cwblhau'r fframwaith cymwysterau llawn yn parhau i fod yn ofyniad. Fodd bynnag, bydd gan ddarparwyr hyblygrwydd i ddefnyddio modelau dysgu cyfunol. Lle mae angen i brentisiaid ymgymryd â dysgu ac asesiadau na ellid eu cwblhau yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud, ond a fyddai wedi dihysbyddu eu gwerth ariannu rhaglen yn 2019/20, byddwn yn dyfarnu cyllid ychwanegol i bob gweithgaredd dysgu sy'n weddill (hyd at uchafswm cyllid gwerth tri mis) i sicrhau bod y |

darparwr yn gallu eu cefnogi'n ariannol.

**Cyfrifon Dysgu Personol (CDP)**

Lansiwyd y cynllun peilot CDP ym mis Medi 2019 mewn dau goleg, i gynorthwyo pobl gyflogedig i ennill sgiliau a chymwysterau lefel uwch yn y sectorau adeiladu, peirianneg, digidol, gwasanaethau ariannol ac iechyd. Mae Gweinidogion wedi cytuno i uno'r cynllun peilot hwn â'r Gronfa Datblygu Sgiliau AB, er mwyn darparu cymorth ledled Cymru i bobl gyflogedig sy'n ennill o dan yr incwm canolrifol, gweithwyr sydd ar ffyrlo ac unigolion sydd wedi cael eu heffeithio'n negyddol gan Covid-19 i ennill sgiliau lefel uwch mewn sectorau blaenoriaeth fel y gallant fanteisio ar ddewis ehangach o gyfleoedd gwaith. Yn ystod blwyddyn gyntaf y ddarpariaeth, bydd y rhaglen yn ymatebol i ofynion cyflogwyr o ran uwchsgilio, mewn ymateb uniongyrchol i Covid-19. Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno mewn modd hyblyg, gan gynnwys dysgu ar-lein a dysgu cyfunol.

**Trefniadau Monitro**

**Cynllunio a monitro Addysg Bellach**

Rydym wedi llacio'r gofynion cynllunio ar gyfer 2020/21, gan ganiatáu i gynlluniau cwricwlwm colegau, yn bennaf, adlewyrchu cynlluniau'r flwyddyn flaenorol. Byddwn hefyd yn ymagweddu'n "ysgafn" tuag at fonitro darpariaeth, a byddwn yn dadansoddi effaith Covid-19 ar gynllunio cwricwlwm colegau ar draws sectorau. Rydym yn disgwyl i golegau fod yn ymatebol i flaenoriaethau cenedlaethol a bennir gan Weinidogion Cymru yn ogystal â blaenoriaethau sy'n deillio o adroddiadau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

**Mesurau perfformiad:**

Ar gyfer 2020/21:

- Fyddwn ni ddim yn cynhyrchu mesurau cyflawni dwy flynedd ar gyfer rhaglenni Addysg Gyffredinol, gan adlewyrchu'r effaith barhaus ar y cohort A2 y tarfwyd ar eu dysgu a'u cymwysterau yn ystod eu blwyddyn UG yn 2019/20.
- Fyddwn ni ddim yn cynhyrchu mesurau gwerth ychwanegol.
- Byddwn yn gweithio gyda'r sector i ystyried pa ddata perfformiad fyddai'n ddefnyddiol ac yn ystyrlon ar lefel darparwyr, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol AB, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion. Rhagwelwn y byddwn yn cynhyrchu peth data ar gyfer cymwysterau blwyddyn o hyd a ddarperir yn 2020/21, er mwyn sicrhau cynnydd a chwblhad dysgwyr, ond mae fformat a statws y rhain yn destun trafodaeth.
- Byddwn yn defnyddio data cenedlaethol i'n helpu i ddeall effaith Covid-19 ar ddeilliannau a chynnydd dysgwyr.

**Arolygu**

Penderfynodd Estyn y byddai'n atal gweithgarwch arolygu ar 16 Mawrth 2020. Maen nhw wedi ymestyn yr atal hwn ar eu gweithgarwch arolygu i dymor yr Hydref ar gyfer darparwyr ôl-16. Byddant yn parhau i wneud galwadau ffôn ymgysylltu, ac yn ymweld â darparwyr pan fydd hynny'n ddiogel. Bydd hyn yn caniatáu iddynt rannu eu safbwyntiau ar sut y mae darparwyr yn addasu eu dulliau.

Bydd Estyn hefyd yn cynnal adolygiadau thematig ar draws darparwyr mewn perthynas â'r canlynol:

- agweddau at ddysgu cyfunol;
- y cymorth ar gyfer lles dysgwyr.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith Estyn mewn perthynas â Covid-19 i'w gweld ar eu gwefan - https://www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni/cwestiynau-cyffredin-covid-19-ac-arolygu

## 4. **Cyfranogiad dysgwyr a staff:** Bydd dysgwyr a staff yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch llacio cyfyngiadau Covid-19 ac ynghylch sut y caiff y dysgu a'r cymorth eu darparu

Mae Covid-19 wedi effeithio ar unigolion mewn amryw o ffyrdd, gan effeithio ar eu bywydau teuluol, eu gwaith, eu lles corfforol a meddyliol, a'u disgwyliadau ar gyfer y dyfodol. Bydd llawer o ddysgwyr a staff yn y sector ôl-16 yn edrych ymlaen at ddychwelyd i'w coleg neu at eu darparwr ym mis Medi, ac mae ansicrwydd parhaus yn golygu ei bod yn bwysicach nag erioed eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau am eu dysgu a'u gwaith.

Rydym yn disgwyl i ddarparwyr addasu a datblygu eu mecanweithiau ar gyfer cynnwys dysgwyr a staff yn y broses o wneud penderfyniadau, er mwyn llywio'r broses o reoli newid yn barhaus. Mae twf dysgu digidol yn cynnig cyfleoedd newydd i gynnwys ystod ehangach o ddysgwyr (nid yn unig y rhai sy'n ddysgwyr llawn amser neu ar gampws) wrth wneud penderfyniadau, ond mae angen ystyried hefyd y rhai hynny sy'n methu cael mynediad at ddysgu ar-lein. Ar gyfer dysgwyr iau a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), dylai trefniadau fod yn eu lle i gyfathrebu a cheisio barn rhieni/gofalwyr, gan gydnabod y gallant fod yn bryderus bod eu plentyn yn dychwelyd i ddysgu a byddant am gael sicrwydd bod y risgiau'n cael eu rheoli. Gall cyfathrebu effeithiol hefyd helpu i reoli disgwyliadau o ran sut y bydd y dysgu'n digwydd.

Dylai darparwyr wneud y canlynol:

- Cynnal a chryfhau strwythurau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys undebau myfyrwyr, cynrychiolwyr cyrsiau, dysgwyr-lywodraethwyr a systemau eraill, i sicrhau bod dysgwyr yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am beth a sut y maen nhw'n dysgu;
- Defnyddio arolygon a dulliau ymgysylltu eraill i ddeall profiadau dysgwyr a staff, gan gynnwys sut mae newidiadau Covid-19 wedi effeithio arnynt, pa mor dda y maen nhw'n ymgysylltu â dulliau dysgu cyfunol, a sut y gellir bodloni eu hanghenion ieithyddol;
- Manteisio ar bob cyfle i sicrhau bod barn dysgwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, eu diogelu a grwpiau dan anfantais yn cael ei chlywed, ei deall a bod pobl yn ymateb iddi;
- Sicrhau bod cyfleoedd anffurfiol ar gael i ddysgwyr godi cwestiynau a phryderon;
- Cyfathrebu'n gynnar ac yn gynhwysfawr â dysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud, pam, a sut y byddan nhw'n effeithio arnynt;
- Archwilio cyfleoedd i weithio gyda dysgwyr fel "asiantau newid" a all gyd-gynhyrchu strategaethau, datrysiadau ymarferol ac adnoddau dysgu;
- Cynnwys dysgwyr a staff wrth arfarnu effaith newidiadau i'r modd y caiff dysgu a chymorth eu darparu.

## 5. **Cydraddoldeb:** Bydd y gwaith o gynllunio a darparu dysgu yn adlewyrchu anghenion grwpiau difreintiedig a gwarchodedig, gydag addasiadau priodol yn cael eu gwneud i sicrhau mynediad a phrofiad cyfartal

Er bod Covid-19 wedi effeithio ar ein cymdeithas gyfan, mae'r dystiolaeth yn dangos mai unigolion o grwpiau wedi'u diogelu a rhai dan anfantais sy'n debygol o brofi'r effeithiau fwyaf difrifol. Er enghraifft:

- Bu adolygiad gan grŵp cynghori arbenigol yn ystyried pam fod pobl o gymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn fwy tebygol o gael eu heffeithio'n niweidiol gan Covid-19. Canfu'r grŵp hwn fod cyfraddau heintiau a marwolaethau anghymesur ar gyfer cymunedau BAME yn gysylltiedig ag ansicrwydd o ran incwm a chyflogaeth a materion diwylliannol yn ymwneud ag addasrwydd gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ar gyfer y grwpiau hyn.
- Mae gwaith dadansoddi gan Sefydliad Bevan yn amlygu'r heriau o ddarparu dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn ystod y cyfnod clo, a'r rôl gymdeithasol ac emosiynol hanfodol y mae'r ddarpariaeth hon yn ei chwarae ym mywydau dysgwyr.
- Mae mudiadau anabledd cenedlaethol yng Nghymru wedi lleisio pryderon am yr effaith ar bobl anabl sydd â chyflyrau meddygol yn barod sy'n debygol o wynebu niwed, nid yn unig trwy Covid-19 ei hun ond drwy bwysau cyffredinol ar y system iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae Mencap wedi adrodd bod pobl ag anableddau dysgu eisoes yn wynebu lefelau eithafol o unigedd cymdeithasol ac unigrwydd a'u bod yn saith gwaith yn fwy tebygol o deimlo'n unig na'r boblogaeth gyffredinol yn sgil cau gwasanaethau dydd, colli'r drefn arferol, anawsterau wrth geisio aros mewn cysylltiad gyda theulu ac anawsterau cadw'n brysur.
- Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Fforwm Cymru Gyfan ar gyfer Rhieni a Gofalwyr wedi rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch y pryderon a'r pwysau sy'n wynebu llawer o ofalwyr ifanc o ran dychwelyd i addysg. Mae'r rhain yn cynnwys pryderon ynghylch trosglwyddo'r feirws i'r bobl y maen nhw'n gofalu amdanynt, rheoli blaenoriaethau sy'n cystadlu, ymdopi ag unigedd, ac euogrwydd ynghylch cyfrifoldebau dros eu brodyr a'u chwiorydd.
- Mae cyfleoedd i gyflawni trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi cynyddu yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau, gyda dioddefwyr yn aml wedi'u hynysu oddi wrth eu teuluoedd ac yn methu cael mynediad i fannau addysgol a "mannau diogel" eraill.

Byddwn yn parhau i ymchwilio i effeithiau Covid-19 ar wahanol grwpiau, gan gynnwys ystyriaeth benodol o ddysgwyr ôl-16. Rydym wedi cynnal asesiad effaith integredig ar ein Cynllun Cadernid Covid-19, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan. Bydd hwn yn cael ei adolygu'n barhaus i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau ychwanegol sy'n deillio o ailagor y sector i ddysgu wyneb yn wyneb.

Wrth gynllunio ar gyfer eu darpariaeth o fis Medi 2020, dylai darparwyr dysgu ystyried effeithiau ar wahanol grwpiau o ddysgwyr a staff. Bydd angen iddynt ystyried sut y gallai fod angen addasu'r ddarpariaeth dechnoleg ar gyfer dysgu o bell, cymorth dysgu, trefniadau cludiant a darparu cymorth ariannol ac ymarferol i ymateb i anghenion grwpiau gwahanol.

Yn benodol, efallai y bydd rhai dysgwyr o grwpiau difreintiedig yn ei chael yn arbennig o anodd i ddysgu o bell, oherwydd materion yn ymwneud â'u hamgylchedd byw, mynediad at dechnoleg a/neu gyfrifoldebau gofalu. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr dysgu gynllunio i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i ymgysylltu, er enghraifft drwy ddarparu cyfarpar, sicrhau bod y dysgwyr hyn yn elwa ar bresenoldeb wyneb yn wyneb, a chymorth ychwanegol i'w helpu i barhau a gwneud cynnydd yn eu dysgu.

## 6. **Dysgu Proffesiynol:** Bydd gan ymarferwyr fynediad i ddysgu proffesiynol priodol er mwyn helpu i ddatblygu a gwella eu sgiliau i gyflwyno a chefnogi dysgu yng nghyd-destun addasiadau Covid-19

Mae arolwg Insights Jisc o 2019 o ymarferwyr ôl-16 yng Nghymru yn dangos maint yr her a wynebodd y sector pan ddechreuodd y cyfyngiadau symud dim ond ychydig fisoedd yn ddiweddarach:

> *Mae adborth yn awgrymu bod ymarferwyr addysgu yn ystyried bod y defnydd o dechnolegau digidol yn eu haddysgu yn gydran ychwanegol opsiynol o fewn rôl eu swydd, er eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd dysgu sgiliau digidol ar gyfer gyrfaoedd myfyrwyr yn y dyfodol. Mae'r tensiwn hwn, ynghyd â diffyg gwobrwyo a chydnabyddiaeth i staff sy'n rhoi o'u hamser a'u hymdrech i ddefnyddio technolegau digidol trafodol a thrawsnewidiol, yn creu rhwystrau pwysig rhag sefydlu addysgu a dysgu a alluogir gan dechnoleg mewn ymarfer eang.*

Ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, roedd gan lawer o ymarferwyr sgiliau digidol datblygedig yn barod ac roeddent yn gallu cofleidio'r broses o ddarparu dysgu ar-lein yn frwdfrydig. Roedd eraill, fel y mae arolwg Insights yn dangos, yn llai cymwys i wneud hynny. Bydd newidiadau tymor hwy i'r ddarpariaeth ddysgu yn mynd ymhell y tu hwnt i fudo addysgu yn uniongyrchol i blatfformau ar-lein, ac mae hyn yn cyflwyno heriau sylweddol ar gyfer dysgu proffesiynol.

Rydym yn cydnabod bod darparwyr dysgu eisoes yn buddsoddi mewn dysgu proffesiynol i helpu eu staff i baratoi ar gyfer yr hydref a thu hwnt. Mae ein cymorth i'r sector yn cynnwys:

- Cynnig hyfforddiant a chymorth helaeth JISC, gan gynnwys cymorth drwy reolwyr cyfrifon; y fframwaith galluogrwydd digidol; a chanllawiau, adnoddau a hyfforddiant ar-lein Covid-19;
- Y Gronfa Datblygu Proffesiynol i golegau, gwerth £5 miliwn, a fydd yn 2020/21 yn cynnwys dysgu digidol fel ffocws allweddol ar gyfer prosiectau sefydliadol a chydweithredol;
- Y safonau digidol newydd ar gyfer darparwyr ôl-16 ychwanegu dolen;
- Addysgeg ddigidol mewn dysgu seiliedig ar waith drwy brosiect sydd ar y gweill gan JISC, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru; a
- Datblygiad parhaus adnoddau Hwb, a chyflwyno cyfrifon i staff ôl-16.

Dylai darparwyr wneud y canlynol:

- Defnyddio'r safonau proffesiynol ar gyfer addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith i lywio eu gwaith o gynllunio a darparu dysgu proffesiynol;
- Cefnogi ymarferwyr i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau dysgu cyfunol sy'n ddeniadol;
- Ystyried sut y gellir rheoli a symleiddio llwythi gwaith er mwyn i ymarferwyr allu canolbwyntio ar addysgu a dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i adolygu gofynion gweinyddol;
- Defnyddio'r safonau digidol newydd ychwanegu dolen, wedi'u cyd-adeiladu gan y sector a Jisc, i werthuso sgiliau digidol ymarferwyr a blaenoriaethu hyfforddiant pellach;
- Cydnabod y bydd staff yn rheoli pryderon dysgwyr a materion ymarferol o ran ail-ymgysylltu â dysgu, a'u bod yn debygol o fod angen cymorth i wneud hyn yn effeithiol;
- Y tu hwnt i hyfforddiant ffurfiol, rhoi cyfleoedd i staff gydweithio i rannu syniadau ac adnoddau addysgu digidol drwy rwydweithiau a digwyddiadau, o fewn a thu hwnt i'w sefydliad eu hunain;
- Dilyn hyfforddiant gydag ymarfer, anogaeth a chymorth ymarferol;
- Datblygu diwylliant o gydnabod a gwobrwyo ar gyfer datblygiad digidol;
- Darparu hyfforddiant ac arweiniad i ymarferwyr ar gadw'n ddiogel ac ymddwyn yn briodol mewn amgylcheddau digidol, gan gyfeirio at ganllawiau arfer da CGA.

## 7. **Dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog:** Bydd dysgwyr yn cael cynnig cyfleoedd priodol i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, gan gynnwys dysgu, asesu a defnydd anffurfiol o'r Gymraeg

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i darged Cymraeg 2050 o 1,000,000 o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac rydym yn disgwyl i ddarparwyr dysgu barhau i gynllunio i fodloni anghenion dysgwyr sy'n siarad Cymraeg a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Dylai darparwyr wneud pob ymdrech i ddarparu deunyddiau a mynediad at asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i annog eu defnydd. Mae dysgu cyfunol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer dulliau cydweithredol ac arloesol, drwy rannu adnoddau, gweithgareddau addysgu a phlatfformau.

Dylai darparwyr dysgu gydnabod bod rhai o'r dysgwyr sy'n symud ymlaen i'r sector ôl-16 yn dod o ysgolion cyfrwng Cymraeg; bydd y rhai sy'n dod o deuluoedd di-Gymraeg wedi colli cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau iaith yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Bydd astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, neu hyd yn oed cael cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg, yn helpu'r dysgwyr hyn i ail-ymgysylltu â'r iaith wrth iddynt ddechrau dysgu ôl-orfodol. Bydd unrhyw beth y gall darparwyr ei wneud i gefnogi hyn yn helpu.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cefnogi dysgu cyfrwng Cymraeg yn y sectorau ôl-16 ac addysg uwch. Mae ei phorth adnoddau, Porth, yn cynnwys adnoddau dysgu a datblygu staff ar gyfer ystod eang o bynciau a lefelau, y gall darparwyr dysgu eu defnyddio i gefnogi a gwella'r modd y caiff dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ei ddarparu. Mae'r Coleg hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ledaenu arfer da a chefnogi prosiectau arloesol a chreadigol.

Dylai darparwyr wneud y canlynol:

- Sicrhau eu bod yn mynd ati'n weithredol i gynllunio darpariaeth ac asesu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn eu cwricwlwm cyfunol;
- Archwilio cyfleoedd creadigol ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg, gan gynnwys cymunedau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau i helpu i ategu sgyrsiau mwy cyfyngedig wyneb yn wyneb;
- Sicrhau bod ymarferwyr yn cynnwys y Gymraeg wrth ddatblygu adnoddau mewn meysydd pwnc blaenoriaeth;
- Nodi cyfleoedd ar gyfer cyflwyno creadigol, megis mwy o gydweithio a chyfleoedd ar gyfer mwy o "fàs critigol" o staff a dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar blatfformau ar-lein.

## 8. **Adferiad economaidd:** Bydd cynllunio darpariaeth dysgu ôl-16 yn adlewyrchu effeithiau economaidd Covid-19, gan gynnwys anghenion unigolion di-waith a gwaith i osod y sylfaen ar gyfer newidiadau yn y farchnad lafur yn y dyfodol

Mae *Ffyniant i Bawb, y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (EAP)*, wedi'i adeiladu ar sylfeini deublyg lleihau anghydraddoldeb a gwasgaru cyfoeth a lles ledled Cymru. Mae'r dull rhanbarthol o weithredu a nodwyd yn yr EAP wedi bod yn hollbwysig wrth lunio a chyflwyno ein hymateb uniongyrchol i Covid-19, a bydd yn dod yn fwy canolog fyth wrth i ni symud i gyfnod nesaf adferiad.

Rhaid i'r ymateb cyflogaeth a sgiliau i Covid-19 gael ei lywio gan ddealltwriaeth glir o'i effaith ar y farchnad lafur, gan ddefnyddio data a gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau a rhanddeiliaid. Gofynnwyd i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) ddarparu adroddiadau rheolaidd am wybodaeth am y farchnad lafur, gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd gan eu rhwydweithiau cyflogwyr i ddangos sut mae cyflogwyr mewn sectorau allweddol yn ymateb i Covid-19.

Mae'r adroddiadau cynnar wedi amlygu'r canlynol:

- Mae llawer o gyflogwyr yn canolbwyntio ar oroesi yn y tymor byr, gyda chryn dipyn o ansicrwydd yn ei gwneud hi'n anodd meddwl am oblygiadau'r argyfwng ar eu hanghenion sgiliau.
- Nodwyd effeithiau Covid-19 ar draws ystod eang o sectorau, ond gydag effeithiau arbennig o ddwys ar dwristiaeth, lletygarwch, awyrofod a gweithgynhyrchu moduron.
- Er bod y cynllun ffyrlo wedi lleddfu'r ergydion, mae'r rhagolygon o golli rhagor o swyddi yn parhau, gyda gweithwyr mewn galwedigaethau sgiliau is yn cael eu hystyried i fod mewn perygl neilltuol.
- Mae iechyd a gofal cymdeithasol wedi gweld lefelau recriwtio cymharol uchel; fodd bynnag, mae'r angen i recriwtio nifer fawr o weithwyr newydd tra'n ymdopi â Covid-19 yn cyflwyno heriau.
- Mae'r ansicrwydd a wynebir gan lawer o gyflogwyr yn golygu bod amwysedd ynghylch y rhagolygon ar gyfer hyfforddi cyflogwyr a'u hymgysylltu â dysgu seiliedig ar waith yn y dyfodol, yn enwedig yn y sectorau y mae'r argyfwng wedi effeithio arnynt waethaf.
- Er bod llawer o gwmnïau'n parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu cyfleoedd hyfforddi, mae perygl y gallai'r buddsoddiad gael ei gwtogi os na fydd yr amodau economaidd yn gwella.
- Mae'r adroddiadau wedi amlygu nifer o faterion i'w hystyried fel rhan o adnewyddu'r Strategaeth Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, yn enwedig pwysigrwydd sgiliau trosglwyddadwy i gefnogi symudiadau rhwng sectorau a galwedigaethau.

Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r sector i ddatblygu dull mwy hyblyg ac ymatebol o ddarparu gwasanaethau mewn sectorau allweddol er mwyn bodloni anghenion cyflogwyr a dewisiadau dysgwyr unigol. Caiff y gwaith o gysoni darpariaeth dysgu seiliedig ar waith i anghenion rhanbarthol ei adolygu cyn diwedd y flwyddyn unwaith y bydd yr effaith lawn ar brentisiaethau yn fwy clir.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi **Ymrwymiad Covid** i "gynnig cyngor a chymorth i bobl 16+ i ddod o hyd i waith, i geisio bod yn hunangyflogedig neu i ddod o hyd i le mewn addysg neu hyfforddiant, gyda chymhellion cyflogi i gyflogwyr recriwtio unigolion sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan Covid-19." Mae hyn yn canolbwyntio ar:

i. Cymorth i bobl ifanc i liniaru'r cynnydd a ragwelir mewn diweithdra ymysg ieuenctid a'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

ii. Canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chefnogi'r di-waith hirdymor mewn cymunedau sydd fwyaf agored i niwed.
iii. Creu swyddi newydd a mentrau newydd, gan gynnwys darparu cymhellion i gyflogwyr i ysgogi cyflogi.
iv. Cynyddu faint o addysg a hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer swyddi mewn galwedigaethau a sectorau sy'n ehangu drwy uwchsgilio ac ailsgilio.
v. Gwaith adferol ar gyfer dysgwyr yr effeithiwyd yn andwyol arnynt gan y cyfnod clo yn sgil y cyfyngiadau ar fynediad at gyfleusterau hyfforddiant galwedigaethol.

Mae gwaith eisoes ar y gweill i gyflawni'r blaenoriaethau hyn ac mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfres o fentrau i gefnogi pobl ifanc ac oedolion y mae Covid-19 yn effeithio ar eu rhagolygon cyflogaeth, sy'n cynnwys:

- Cymorth i unigolion gan Cymru'n Gweithio, sy'n cael ei ddarparu ar-lein a thrwy ei fwletin swyddi newydd, yn ogystal â pheilot gwasanaeth galw fideo;
- Dysgu ar-lein i weithwyr ar ffyrlo, dan ofal Cymru'n Gweithio, sy'n cefnogi unigolion i ddiweddaru eu sgiliau, cynnal eu hiechyd meddwl a meddwl am opsiynau gyrfaol yn y dyfodol;
- Cymorth diswyddo gan gynnwys y cynllun ReAct sydd wedi'i sefydlu eisoes;
- Ysgolion Haf Hyfforddeiaethau, a ddarperir ar-lein gan ein rhwydwaith o ddarparwyr; ac
- Adlinio cynlluniau eraill, megis y Rhaglen Cyflogadwyedd Cymunedol a Chronfa Ddysgu Undebau Cymru, er mwyn sicrhau darpariaeth ddiogel ac er mwyn bodloni anghenion gweithwyr sydd wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu sydd wedi cael eu diswyddo.

Dylai darparwyr wneud y canlynol:

- Cefnogi pobl i gael gwaith cyn gynted â phosibl, drwy ddarparu cymorth cyflogadwyedd a sgiliau i helpu pobl i ymuno â'r farchnad swyddi neu ailddechrau cyflogaeth ar ôl colli eu swyddi;
- Ailsgilio ac uwchsgilio unigolion di-waith a chyflogeion presennol ledled Cymru i gynnal cyflogaeth neu i ddod o hyd i gyflogaeth mewn sectorau newydd neu gael mynediad at gyflog uwch;
- Sicrhau parhad dysgu a chynnydd i ddysgwyr, yn enwedig pobl ifanc, a'r rhai y mae'r cyfnod clo wedi effeithio'n niweidiol arnynt yn sgil cyfyngiadau ar fynediad at gyfleusterau hyfforddiant galwedigaethol – drwy gefnogaeth dal i fyny;
- Manteisio i'r eithaf ar gysylltiadau â chyflogwyr a chymhellion recriwtio i ysgogi recriwtio, creu swyddi, cyfleoedd lleoliadau gwaith a phrofiad gwaith;
- Defnyddio gwybodaeth ranbarthol am y farchnad lafur ac ymateb i anghenion a blaenoriaethau rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg, a datblygu system fwy hyblyg ac ymatebol sy'n cefnogi sectorau allweddol, sy'n bodloni anghenion cyflogwyr a dewisiadau dysgwyr unigol; a
- Gweithio gyda Cymru'n Gweithio a Busnes Cymru i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ddarpariaeth bresennol a bod dulliau atgyfeirio ar waith i ymateb i ymgyrchoedd marchnata.

## 9. **Cadernid ariannol:** Bydd cadernid ariannol y sectorau ôl-16 yn cael ei adolygu a'i gefnogi, i sicrhau bod dysgu'n cael ei ddarparu'n ddiogel ac yn effeithiol tra'n cynnal sicrwydd ariannol ar gyfer 2021 ymlaen

Yn ystod camau cynnar y cyfnod cyfyngiadau symud yng ngwanwyn 2020, rhoddwyd mesurau ar waith i sicrhau parhad yn y cyllid i ddarparwyr, er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar ymateb i anghenion dysgwyr yn ystod y pandemig. Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym wedi gweithio gyda'r sector i nodi sut y dylid addasu cyllid i gefnogi'r ddarpariaeth yn 2020/21, a meysydd lle mae angen cymorth ychwanegol.

Ar gyfer y **sector addysg bellach**, mae Gweinidogion wedi cytuno ar becyn ariannu sy'n cynnwys:

- £5m i gefnogi'r costau ychwanegol o ddod â dysgwyr galwedigaethol yn ôl i mewn i amgylchedd coleg sy'n parchu cadw pellter cymdeithasol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cwblhau eu cymwysterau trwydded i ymarfer.
- £15.288m i gydnabod costau "dal i fyny" pob un o'r dysgwyr llawn amser 16-19 oed sy'n dechrau darpariaeth Safon Uwch neu alwedigaethol naill ai mewn chweched dosbarth neu mewn coleg addysg bellach.
- £460,000 i gefnogi costau ychwanegol caniatáu i ddysgwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol ddychwelyd i'r coleg ym mis Medi, i gwblhau tymor terfynol y ddarpariaeth er mwyn paratoi ar gyfer gadael amgylchedd y coleg.
- Uchafswm o £17.962m i gefnogi'r costau ychwanegol o ddod â dysgwyr galwedigaethol yn ôl ar gyfer dysgu ymarferol wyneb yn wyneb yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'n ddiogel.

Ar gyfer y **sector dysgu seiliedig ar waith**:

- O ystyried ail-agor canolfannau hyfforddi a'r cynnydd yn nifer y prentisiaid sy'n gallu dychwelyd i'r gwaith, bydd cyllid ar gyfer y rhaglen Prentisiaethau a'r rhaglen Hyfforddeiaethau yn seiliedig ar ddata gwirioneddol o 1 Awst 2020. Bydd swyddogion yn monitro'r nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau gan bob darparwr er mwyn sicrhau y gellir adlinio'r cyllid i ateb y galw mewn meysydd blaenoriaeth.
- Lle mae angen i brentisiaid ymgymryd â dysgu ac asesiadau nad oedd modd eu cwblhau yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud, ond a fyddai wedi dihysbyddu gwerth ariannu eu rhaglen yn 2019/20, byddwn yn dyfarnu hyd at dri mis ychwanegol o gyllid am bob dysgwr i sicrhau bod y darparwr yn gallu rhoi cymorth ariannol i bob dysgwr yn y sefyllfa hon.
- Rydym yn sylweddoli bod y cyfnod hwn o ansefydlogrwydd economaidd yn debygol o olygu y bydd nifer sylweddol o brentisiaid yn cael eu diswyddo. Rydym hefyd yn sylweddoli bod y galw am brentisiaethau yn debygol o ostwng. Mewn ymateb i hyn, mae Gweinidogion wedi cytuno ar becyn ariannu gwerth £16.4m er mwyn:
    - Darparu cymhellion cyflog i ysgogi'r broses o recriwtio prentisiaid 16-24 oed a galluogi prentisiaid sydd wedi'u diswyddo i barhau i ddysgu gyda chyflogwr newydd;
    - Cynorthwyo prentisiaethau a rennir o dan arweiniad y sector i hwyluso dysgu parhaus prentisiaid presennol sy'n rhannu cyfrifoldeb.

Ar gyfer **addysg oedolion awdurdodau lleol**, rydym wedi dyrannu £100,000 ar gyfer mentrau dysgu ac iechyd meddwl proffesiynol i helpu i feithrin gallu yn y sector i gefnogi dysgwyr a staff.

Dyrannwyd £3.2m ychwanegol i helpu i fynd i'r afael ag allgáu digidol ar draws o fewn addysg ôl-16. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i brynu offer TGCh a gwella cysylltedd er mwyn helpu i gefnogi dysgu cyfunol.

